



Polisi Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith Menter Ty'n Llan. Mae ein delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol yn rhoi'r lle amlycaf i'r Gymraeg

Mae Menter Ty'n Llan yn ymrwymedig i gynnig gwasanaeth cyflawn Cymraeg neu ddwyieithog ym mhob agwedd o waith y cwmni gan gynnwys darpariaeth i'r aelodau, y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a staff

- Bydd holl waith gweithredu mewnol a gweinyddol Menter Ty'n Llan yn Gymraeg
- Yn ein cyfarfodydd cyffredinol a phan drefnir cyfarfod cyhoeddus byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu i'r Saesneg ar gael os gofynnir amdano ymlaen llaw
- Byddwn yn cychwyn sgysiau â'r cyhoedd ac â phartneriaid busnes yn Gymraeg a bydd pob gohebiaeth agoriadol fel arfer yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Bydd pob datganiad i'r wasg neu'r cyfryngau Cymreig yn Gymraeg i'r wasg Gymraeg ac yn ddwyieithog fel arall
- Bydd hysbysebu a chyhoedduddydd Menter Ty'n Llan a gweithgareddau Menter Ty'n Llan yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar bob cyfrwng. Os yn ddwyieithog bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y/ar y chwith i'r fersiwn Saesneg
- Er mwyn galluogi Menter Ty'n Llan i ddarparu gwasanaeth ddwyieithog i'r cyhoedd bydd rhaid i bob aelod o'r staff gweinyddol a blaen tŷ fedru cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn hyderus i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cefnogi staff sydd am ddysgu'r Gymraeg neu sydd am wella eu sgiliau ieithyddol i dderbyn hyfforddiant priodol
- Bydd hysbysebion penodi staff yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i lle ym mywyd y gymuned ymysg ein cwsmeriaid
- Bydd ein bwydlenni a'n harwyddion yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Ym mhob agwedd o weithgaredd Menter Ty'n Llan byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a'i hymarfer

Bydd Menter Ty'n Llan yn adolygu'r polisi pob 3 blynedd

Mabwysiadwyd ar 25 Mai 2021

Llofnod y Cadeirydd *C. E. Lewis* ..[CARYL ELIN LEWIS].....

Llofnod Aelod o'r Pwyllgor Rheoli *Carys Aaron* ...[Carys Aaron].....